**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Nesaf**

**21 Tachwedd 2007**

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Leighton Andrews**

Yn y ddogfen Cymru'n Un, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymo i fynd â Chymunedau yn Gyntaf i'r cam nesaf gan ddefnyddio profiad y mudiad datblygu cymunedau ehangach yng Nghymru a chanfyddiadau gwerthusiad interim y rhaglen.

Cyhoeddwyd Datganiad gennym ar 3 Awst 2007 am ein bwriad i wireddu'r ymrwymiadau hynny a symud ymlaen at Cymunedau Nesaf. Fel rhan o'r broses hon, rwyf wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i sicrhau bod Cymunedau Nesaf yn adeiladu ar ganfyddiadau gwerthusiad interim y rhaglen, yr arferion da cyfredol, a safbwyntiau pobl broffesiynol sydd â phrofiad helaeth o'r rhaglen a mentrau perthnasol.

Dyma restr o aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Dave Adamson (Rhaglen Adfywio Prifysgol Morgannwg, bu ynghlwm â pholisi gwreiddiol Cymunedau yn Gyntaf)
- Barbara Castle (Ymgynghorydd ym maes Adfywio Cymunedol, bu ynghlwm â pholisi gwreiddiol Cymunedau yn Gyntaf)
- Roger Tarling (Cambridge Policy Consultants, prif gontractwyr y gwerthusiad o raglen Cymunedau yn Gyntaf)
- Anne Delaney (Ymgynghorydd Preifat, â chefndir yn Swyddfa Archwilio Cymru, ymgynghorydd y Gwerthusiad o raglen Cymunedau yn Gyntaf)
- Tim Williams (cynghorydd Llywodraeth San Steffan ar adfywio a thai)

Hefyd bydd y swyddogion canlynol o Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cynghorwyr arbennig hyn yn aelodau o'r grŵp.

- Caroline Turner
- Mike Harmer
- Paul Dear
- Gareth Thomas
- Simon Thomas
- Mike Sullivan
- Ceri Williams

Ein bwriad yw cyhoeddi dogfen ymgynghorol yn y Flwyddyn Newydd, a byddwn hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru er mwyn sicrhau y caiff pob rhanddeiliad y cyfle i gyfrannu at ddyfodol y rhaglen.